**GORCHYMYN DILEU LLWYBR**

**CYHOEDDUS DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**CYNGOR BRO MORGANNWG (LLWYBR**

**TROED CYHOEDDUS RHIF 56, GWENFÔ)**

**GORCHYMYN DILEU LLWYBR CYHOEDDUS 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ("yr Awdurdod") o dan Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod nad oes angen y llwybr troed a ddisgrifir isod at ddefnydd y cyhoedd.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir yn Fferm Whitehall, Gwenfô a ddangosir gan linell barhaus ddu ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael eu dileu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** 19257

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**yma**

**ar** 14eg o Hydref **2025**

**ym mhresenoldeb:**

**Victoria Davidson**
**Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Justine Cass**
**Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol**


## ATODLEN

## Rhan 1

## DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU FFORDD BRESENNOL

| Rhan o'r llwybr neu'r ffordd fel y'i dynodir ar y map | Lleoliad | Hyd | Lled |
|---|---|---|---|
| **A – B**<br>Llwybr Troed<br>Rhif 56 Gwenfô | Yn dechrau ym mhwynt A (NGR 311911 173302) wrth ei gyffordd â Llwybr Troed Rhif 30 Gwenfô ac yn parhau tua'r gorllewin i derfynu wrth ei gyffordd â Llwybr Troed Rhif 25 Gwenfô ym mhwynt B (NGR 311605 173246. | 361 metr | 0.9 metr |

Diddymu o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 56 Gwonvo Deddf Pryffyrdd 1980, Adran 118
Extinguishment of Public Footpath No.56 Wenvoe Highways Act 1980 Section 118




**Diddymu**
**Extinguishment**

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
**Public Rights of Way**

- Llwybr Troed / Footpath
- Llwybr Ceffylau / Bridleway
- Cilffordd Gyfyngedig / Restricted Byway

AO / OS: 311737 173329

Garddfa / Scale: 1:2500

Dyddiad / Date: 13.09.2023

© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023424